CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Adroddiad ar y Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2025-26

Mae Cyngor Botwnnog yn darparu amrediad o wasanaethau i'w cymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am nifer o fannau gwyrdd, gan gynnwys un parc chwarae yn Llangybi a sawl llwybr lleol.
- Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyaeth a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.
- Mae dalgylch y Cyngor ym Mhen Llyn, ac yn glwstwr o bentrefi bach a chanolig eu maint sydd wedi ei lleoli mewn cefn gwlad prydferth.
- Asgwrn cefn yr economi leol yw'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth. Mae'r tirwedd yn gymysgedd o dir glas, corsdir
- Ym mis Ionawr 2026, roedd 456 o etholwyr o fewn y gymuned.
- Mae tair ward yn y gymuned, Ward Botwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryncroes.
- Praesept y Cyngor hyd at 31.03.2026 yw £6,500

Dyma rai o'r llwybrau poblogaidd yng nghymuned Botwnnog.

Llwybr Bach Botwnnog

Ac unrhyw lwybr arall ddaw i sylw'r Cyngor angen ei farbio

Adroddiad Gweithredu		
Camau gweithredu i:-		Wedi ei monitro gan:
Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	Wrth ymateb i geisiadau cynllunio	Cyngor Cymuned/Cyngor Gwynedd
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	'Mae 'Coed Cadw' ((Woodland Trust') eisiau sicrhau fod pawb yn y wlad yn cael y cyfle i blannu coeden, a bob mis Tachwedd maent yn cynnig coed cynhenid am ddim i ysgolion a chymunedau. Mae'r Cyngor yn annog yr ysgolion a ffermwyr i fanteisio ar y cynnig yma. Hefyd mae'r Cyngor am blannu coeden/coed ar Gomin Bryncroes ac hefyd ym Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning.	Cynghorwyr y Cyngor Cymdeithas

	Plannwyd coed cynhenid o dan y cynllun Grant GwyneddNi ym Mynwent Llandegwnning, Botwnnog, Neuadd Goffa Sarn, Comin Bach, Bryncroes a Mynwent Capel Hebron, Llangwnnadl yn ystod mis Ionawr/Chwefror 2026	
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu fod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau Cyngor Gwynedd. Torri gwair 2 y flwyddyn er mwyn diogelu gloynod byw, gadael i laswellt a blodau gwyllt wasgaru eu hadau cyn ei torri, er mwyn sicrhau cynaladwyaeth yn ystod y blynyddoedd dilynol. Bydd y toriad cyntaf yn cael ei wneud ddechrau Mehefin a dechrau fis Medi. Mae Cyngor Gwynedd yn torri gwair ar ochrau ffyrdd unwaith y flwyddyn.	Cyngor Cymuned/Cyngor Gwynedd
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Rhosdir Botwnnog. Nid yw'r tir wedi cael ei dorri ers blynyddoedd ac felly'n creu cynefin a rhwydwaith ecolegol ar gyfer pob math o blanhigion a bywyd gwyllt ac hefyd darparu lloches ar gyfer mamaliaid ac ymlusgiaid bach.	Cyngor Cymuned yn cefnogi sawl sy'n gyfrifol am y tir
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol:lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Rydym yn cadw golwg manwl ar dyfiant rhwyogaethau estron goresgynnol, fel canclwm siapaneaidd e.e. ger Ty Marla, Bryncroes; yr afon ym Mryncroes a'r tir gwyllt ar y ffordd sy'n troi am Eglwys Sarn Mellteyrn.	Cyngor Cymuned/Cyngor Gwynedd Pan fyddwn yn sylweddoli fod canclwm siapaneaidd yn tyfu ar ein llwybrau bydd y Clerc yn hysbysu Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, i ddatrys y broblem.
Cefnogi capasti ac.neu sefydliadau eraill	Plannwyd cennin pedr ym Motwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryncroes ym 2022. Gosodwyd bareli blodau yn y pentrefi – dau ym Motwnnog (un ynghanol y pentref a'r llall ger y lloches bws newydd); Sarn Mellteyrn, Bryn Mawr, dau ym Mryncroes (un ar y gyffordd a'r briffordd a'r llall ar y Comin); ger	Cyngor Cyngor Cymuned Yn cael cymorth gan y gymuned leol

	Y Fantol ar ddiwedd ffin Botwnnog	
Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill.		
Defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth		

Arolwg o ddyletswyddau Adran 6
Monitro parhaus gan y Cynghorwyr, Clerc ac unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.
Arfarniad yn y Cyfarfod Blynyddol bob mis Mai.

Bwriad:
Cysylltu hefo'r ysgolion cynradd lleol i weld os ydynt yn gwneud unrhyw waith yn y maes.
Trefnu cyfarfod/sgwrs i gael cyngor pellach gan Swyddog Bioamrywiaeth Lleol.

Llofnodwyd:- ..... Cadeiryddes y Cyngor

Llofnodwyd:- .....Clerc Cyngor Cymuned

Dyddiad:- 11eg Mai, 2026.